Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9BS
***Ffôn:* 02920 490582**
***E-bost:* aluntudur@btinternet.com**

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE
***Ffôn:* 01766 513138**
***E-bost:* IwanLlew@aol.com**

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
***Ffôn:* 01267 232577 / 0781 751 9039**
***E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk**

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe ABERTAWE SA7 0AJ
***Ffôn:* 01792 795888**
***E-bost:* undeb@annibynwyr.org**

Dalier Sylw!
Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

GWAELOD Y GARTH

O'r chwith: Paul a Rachel Garside, Beti Williams, Leah ac Eilir Owen Griffiths.

Derbyniwyd 5 aelod newydd yn ystod oedfa fore Sul Mawrth 12fed, ym Methlehem, Gwaelod-y-garth, gan arweinydd yr eglwys, Delwyn Siôn. (Ac er na soniwyd gair am benblwyddi yn ystod yr oedfa, roedd yr achlysur yn cyd-fynd â phen-blwydd Delwyn ei hunan!)

CAPEL MAIR, ABERTEIFI

Y Parchedig Irfon C. Roberts, gweinidog Capel Mair, Aberteifi, yn cyflwyno pedair siec o £313 yr un i gynrychiolwyr Sefydliad Prydeinig y Galon, Cymdeithas Parkinson, yr RNLI a'r Siambr Therapi Ocsijen yn Aberteifi. Casgliad rhydd yr eglwys drwy'r flwyddyn 2016 sy'n gyfrifol am y cyfanswm anrhydeddus o £1,252 Cyfrannwyd hefyd y swm o £150 i elusen Llyfrau Llafar Cymru yn dilyn cyfarfod arbennig.

Wynford Jones (ysgrifennydd)

Diwrnod i'r Gweinidogion

Cyfundebau ac Eglwysi'r De

Bethania, Tymbl Uchaf, **ar ddydd Mawrth, 23 Mai 2017**. Byddwn yn cychwyn am 10.30am gyda choffi.

Daw y **Parchg Ddr John Morgans** a'r **Parchg Peter Noble** atom i sôn am eu llyfr, *Our Holy Ground*, a bydd y **Parchg Wayne Hawkins**, Ysgrifennydd Cenhadaol CWM Ewrop, gyda ni i'n hysbrydoli yn ein cenhadaeth unwaith eto.

Os am ginio, cysylltwch â Nerys Humphries yn Nhŷ John Penri cyn dydd hanner dydd, dydd Gwener, 19 Mai.

Diwrnod i'r Gweinidogion y Gogledd

Festri Capel Coffa, Cyffordd Llandudno LL31 9HD

Dydd Iau, 25 Mai 2017
10.30am – 3.30pm

'Gwneud heb...' peryglon hepgor hanfodion yn y weinidogaeth
Y Parchedig John Pritchard

'Pa mor bwysig yw Protestaniaeth heddiw?'
Y Parchedig Rhodri Glyn

Darperir cinio am ddim

Edrychwn ymlaen at groesawu'r gweinidogion i Gyffordd Llandudno

Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Wasg Morgannwg, 27 Ystad Ddiwyd. Mynachlog Nedd, Castell-nedd, SA10 7DR. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.

150 1867-2017
PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG
Y TYST
Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 150 | Rhif 19 | Mai 11, 2017 | 50c.

Taith Arolwg y Cyfundebau

Erbyn hyn, mae taith *Arolwg y Cyfundebau* wedi cyrraedd hanner ffordd gyda'r Ysgrifennydd Cyffredinol a'r Dr Hefin Jones wedi ymweld â saith o'r Cyfundebau. Cafwyd croeso cynnes ymhob un ohonynt, a thrafodaethau bywiog ac adeiladol. Diolch, felly, i gyfeillion Dwyrain Morgannwg, Llundain, Gorllewin Morgannwg, Gogledd Morgannwg, Meirion, Gorllewin Dinbych a Fflint a Gogledd Arfon.

Yng Nghyfarfodydd Blynyddol 2014 ym Mhen-y-bont ar Ogwr y gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cyffredinol gynnal arolwg o sefyllfa a chyflwr y pymtheg Cyfundeb sy'n perthyn i'r Undeb. Dosbarthwyd holiaduron i'r eglwysi a'r holl gyfundebau tua diwedd y flwyddyn, a chafwyd ymatebion gan nifer sylweddol ohonynt.

Wedi i'r ymatebion gael eu didoli a'u cloriannu, lluniwyd adroddiad ar gyfer bob cyfundeb yn ogystal ag adroddiad cyffredinol. Yr olaf hwn a gyflwynwyd i Gynhadledd Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn Llanuwchllyn yn 2016, ac mae'r adroddiadau am y cyfundebau unigol yn cael eu dosbarthu'n uniongyrchol iddynt yn ystod y daith sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Dr Hefin Jones a'r Ysgrifennydd Cyffredinol, ar daith Arolwg y Cyfundebau

Gogledd Morgannwg

Eisoes, ymddangosodd adroddiadau am y tri ymweliad cyntaf yn *Y Tyst*. Ar 16 Chwefror, ymwelwyd â Chyfundeb Gogledd Morgannwg yn Siloa, Aberdâr, ond yng nghwmni'r Parchg Robin Samuel yr aeth yr Ysgrifennydd Cyffredinol yno gan nad oedd yn bosibl i'r Dr Hefin Jones fod yn bresennol.

Oherwydd natur ychydig yn wahanol y cyfundeb hwn, yr oedd y cyfarfod hefyd fymryn yn wahanol i'r rhelyw sydd wedi eu cynnal. Yn hytrach na chael trafodaeth 10 munud ar ddiwedd y cyflwyniadau, gofynnwyd i bob eglwys oedd yn cael ei chynrychioli yno roi, mewn cwta funud, amlinelliad o sefyllfa'r achos. Nid dyma'r tro cyntaf i hyn gael ei wneud yng Ngogledd Morgannwg ac, oherwydd hynny, cafwyd hanesion cryno, bywiog a diddorol dros ben.

Cyfeillion Gogledd Morgannwg yn Siloa, Aberdâr.

Rhai o gyfeillion Cyfundeb Gorllewin Dinbych a Fflint yng nghapel Lôn Swan, Dinbych.

Meirion a Gorllewin Dinbych a Fflint

Ar 29 a 30 Mawrth yr ymwelwyd â Chyfundebau Meirion a Gorllewin Dinbych a Fflint. Erbyn hyn, yr oedd Hefin Jones wedi ail-ymuno â'r daith, a chynrychiolwyr eglwysi Meirion yn fawr eu diddordeb, nid yn unig o gael clywed yr adroddiad cyffredinol ond hefyd yr adborth yr oeddent hwy eu hunain wedi ei roi i'r cwestiynau a ofynnwyd.

Yn dilyn y cyflwyniadau yno, rhannwyd yn grwpiau trafod, ac yn y 10 munud a ganiatawyd ar gyfer y sgwrsio, cafwyd dwsin o awgrymiadau o bethau y gellid eu gwneud i gynyddu apêl y Cwrdd Chwarter ac i gael ychwaneg o bobl i ddod iddo.

Yr un oedd y stori yng nghapel Lôn Swan, Dinbych, y noson ganlynol. Caniatawyd 10 munud eto i drafod, ac er mor anodd yn aml yw goresgyn ein

parhad ar dudalen 2

Anrhydeddu un o'n plith

Llongyfarchiadau mawr i'r Parchg Tom Evans, Llanymddyfri, ar gael ei anrhydeddu gan Heddlu Dyfed-Powys fel 'Gwirfoddolwr y Flwyddyn' mewn seremoni a gynhaliwyd ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant, Llanbedr-Pont-Steffan, yn ddiweddar.

Dros y blynyddoedd diwethaf bu Tom yn gweithio'n ddiflino i ddatblygu gwaith Caplaniaeth Heddlu Dyfed-Powys, a chydnabyddiaeth o'i gyfraniad yn y maes hwnnw yw'r anrhydedd y mae wedi ei derbyn. Mewn gwaith pwysedd uchel fel plismona, neu sefyllfaoedd argyfyngus, peryglus neu emosiynol ddwys, daw gwir gaplaniaeth i'w helfen, yn ei gofal dros swyddogion, gweithwyr a dioddefwyr, fel ei gilydd.

Dros y blynyddoedd diwethaf, datblygodd Heddlu Dyfed-Powys y ddarpariaeth hon y tu hwnt i'r hyn a geir mewn llawer o heddluoedd eraill, ac erbyn hyn y mae ganddynt dîm Caplaniaeth sy'n cynnwys dau-ar-bymtheg o bobl, yn lleyg ac ordeiniedig. Testun balchder i ni yw bod y Parchg Tom Evans wedi gwneud cyfraniad mawr a phwysig i'r datblygiad hwn. Yn wir, bu'n ganolog i'r broses.

At yr anrhydedd a dderbyniodd gan yr Heddlu, anrhydeddwyd Tom hefyd â Thystysgrif Gwerthfawrogiad Uchel Siryf Dyfed am y gwaith y mae'n ei gyflawni.

At hynny wedyn, penodwyd ef yn un o chwe Chyfarwyddwr corff newydd *Police Chaplaincy UK* sy'n datblygu Caplaniaeth yr Heddlu ar draws y Deyrnas Gyfunol.

Llongyfarchiadau mawr, a diolch, iddo!

C. C. C.

Cyrraedd Cymraeg Cywirach – nôd eithaf cymeradwy, mae'n siwr. O'i dilyn, byddai amrywiaeth ymadrodd a harddwch geirfa yn ein rhyfeddu. Er enghraifft: yr awr *hon,* y dydd *hwn,* yr wythnos *hon,* y mis *hwn;* bydd y daith *yn cychwyn* am ddeg, mae'r cyfarfod *yn dechrau* am saith. Pan fo enw lluosog, mae'r ansoddeiriau hefyd yn lluosog: yr oriau *hyn*, y dyddiau *hyn*, yr wythnosau *hyn* a'r blynyddoedd *hyn*. Sut yn y byd y datblygodd cymaint o amrywiaethau allweddol yn yr iaith yn y cyfnodau cynnar hynny, amrywiaethau sy'n cyfleu ystyr mwy manwl bob tro? Dyma ryfeddod, yn wir; rhyfeddod sy'n gosod y Gymraeg yn esmwyth ym mhlith ieithoedd clasurol y byd.

Yma o hyd

Fel y gwyddom yn ddyddiol wrth ddarllen, wrth wrando ar y radio ac wrth ddilyn rhaglenni ar y sgrin, y mae Cymraeg gwahanol ei naws wedi dod yn gyffredin. Dywedwn fod y cylchgronnau a'r rhaglenni hyn oll yn dlotach gan fod eu Cymraeg yn gloff. Mwy na hynny, y mae pobl Cymru o bob oed yn cael eu hamddifadu o elfen bwysig yn eu treftadaeth. Dywedwn ymhellach, fod y Gymraeg ddiweddar hon yn andwyo'r etifeddiaeth odidog sydd yn eiddo Cymru. Edrychwn eto ar yr enghreifftiau uchod fel y dônt i'n sylw bob dydd. Mae yr ansoddeiriau gloyw - hon, hwn, hyn a hynny - wedi eu diswyddo gan yr adferf 'yma' a rhoddwyd i'r adferf hwnnw, ar gam, yr hawl i wneud gwaith y pedwar ansoddair, (hon, hwn, hyn a hynny) yn ogystal â'i waith ei hun. Gwladychu yw hyn. Yn y Gymraeg gloff bresennol, 'yma' sy'n rheoli o'r bore cynnar tan hwyr y dydd, oherwydd yr hyn a glywn yw, yr awr yma, y dydd yma, yr wythnos yma, y mis yma. Syndod a siom yw clywed pobl broffesiynol gyhoeddus ac athrawon yn defnyddio 'yma' lle byddai 'hon' cymaint mwy hyfryd: "Bydd y cyfarfod nesaf yn yr ystafell yma ..." O dro i dro, cawn y boddhâd o glywed Cymraeg coeth a glân. Haedda'r ffaith honno mwy o sylw yn yr ysgrif hon. Rhwydd hynt i gynllun Undeb yr Annibynwyr ac eraill sy'n trefnu i gael cynnydd yn nifer siaradwyr Cymraeg.

Y gair yma

Ymestynnodd 'yma' ei deyrnas i bob cyfeiriad: *y wal yma; yr eildro yr wythnos yma; y digwyddiad yma; ar y maes yma; y gystadleuaeth yma; y wobr yma; i'r criw yma; yr ardal yma; y prynhawn yma; y coed yma*. Y mae iaith gywirach ar gael ac y mae honno yn haeddu ei mynegiant coeth. O ymdrechu at ddefnydd cywirach, mae'n siwr y bydd apêl y Gymraeg yn gryfach. Bydd siarad iaith gywirach yn rhoi ymdeimlad o feistrolaeth i'r disgybl ac i'r dysgedig. Gydag ymdeimlad o feistrolaeth, daw hyder.

Mae her i bawb yma: pob golygydd, pob gwasanaeth cyhoeddus, pob darlledydd, pob busnes, pob Ysgol, Coleg a Phrifysgol. Gallwn ymfalchio mwy eto bod gyda ni iaith hardd ac amryddawn. Rhaid iddi gael ei gwisgo yn ei dillad gorau, ei dillad gwaith.

Dewi Lloyd Lewis

EBENEZER GRAIGFECHAN - Gŵyl Bregethu

Wrth iddi droi yn brynhawn a min nos lawog yma yn Nyffryn Clwyd ar Ddydd Gwener y Groglith 'doedd dim angen inni fod braidd yn bryderus a gofyn ''a wnâi pobl droi allan heno?'' i gynnal ein Gŵyl Bregethu Flynyddol. Yn wir 'roedd cynulleidfa gref tros ben wedi dod ynghyd o'r ardal ac ymhellach i groesawu ein gŵr gwadd am eleni sef y Parchg Ddr Geraint Tudur, Bangor. Rhaid dweud fod y pregethu grymus a gafwyd wedi 'codi calon' pawb ohonom i edrych ymlaen yn hyderus i'r dyfodol. 'Roedd ei ddewisiad o'r pedwar emyn hefyd wedi ennyn canu ysbrydoledig ac eneiniedig gan y gynulleidfa.

Y mae'r ŵyl hon wedi ei chynnal yn yr ardal yn ddi-dor ers blynyddoedd maith ac yn ôl y sôn cyn i gapel Ebenezer gael ei godi yn 1840. Mae'r pregethu grymus sydd wedi bod yma tros y blynyddoedd wedi bod yn fodd i'n hysbrydoli fel ardalwyr i gadw 'mlaen gyda'n tystiolaeth Gristnogol. Diolch o galon i'r Parch Ddr. Geraint Tudur ac i'r ardalwyr oll am eu teyrngarwch.

Gareth Lewis Jones

Hawlfraint Eifion Evans

Taith Arolwg y Cyfundebau - *parhad*

pryderon am ein sefyllfa a'r negyddiaeth sy'n cael ei mynegi mor aml gan hen ac ifanc fel ei gilydd, llwyddwyd i wneud hynny yn Ninbych a rhestru cymaint â naw o awgrymiadau y gellid eu gweithredu i'r dyfodol.

Yn ychwanegol at hynny, fel ymhob man arall, cyflwynwyd yr awgrymiadau hyn mewn ysbryd cynnes ac adeiladol, rhywbeth y tybiwn sy'n deillio o'r pleser a gaiff pobl o gael cyfle i drafod materion eglwysig, cyfundebol ac ysbrydol. Gyda dirywiad yr Ysgol Sul, a diflaniad dosbarth yr oedolion, y Cwrdd Paratoad, y Cwrdd Gweddi, y Seiat a thrafodaeth fywiog y Cwrdd Eglwys, nid yn aml y daw cyfleoedd fel hyn i aelodau eglwysi Annibynnol, nac unrhyw draddodiad Cristnogol arall, i ddod at ei gilydd i drafod materion o bwys.

Gogledd Arfon

Yn Salem, Caernarfon, y cynhaliwyd Cwrdd Chwarter Cyfundeb Gogledd Arfon ar 26 Ebrill. Unwaith eto, bwriodd pedwar grŵp ati i drafod y posibiliadau ar gyfer y dyfodol, a llwyddo i ddod â 10 awgrym i'r drafodaeth agored ar derfyn y cyfarfod. Gwelir, felly, fod cysondeb yn ymddangos yn y patrwm sy'n dod i'r golwg yn y cyfarfodydd hyn - mae digon o frwdfrydedd a syniadau yn ein plith, ond yr hyn sydd ei angen yn awr yw'r penderfyniad a'r egni i'w troi yn weithgarwch ac yn genhadaeth yn ein hamrywiol ardaloedd.

Oherwydd hynny, y gobaith yw y bydd y cyfundebau, yn dilyn ymweliad Taith yr Arolwg, yn parhau i drafod eu sefyllfa a'u dyfodol. Da oedd deall fod Cyfundeb Dwyrain Morgannwg eisoes wedi gwneud hyn, ac edrychwn ymlaen at glywed canlyniad eu trafodaeth bellach.

Mae ymweliadau â phedwar o gyfundebau eraill eisoes wedi eu trefnu; Môn, Dwyrain Caerfyrddin, Penfro a Gorllewin Caerfyrddin. Mae hynny'n golygu fod pedwar yn weddill i'w trefnu, ac edrychwn ymlaen yn fawr at glywed ganddynt hwy yn Nhŷ John Penri.

Gibea, Brynaman

Dathlu 175 Mlwyddiant

Bydd Capel Annibynnol Gibea, Brynaman, yn dathlu pen blwydd arbennig ar 21ain Mai eleni. Estynnir croeso i chwi ymuno â ni yn y dathliad. Bydd te am dri o'r gloch yna, i ddilyn, bydd gwasanaeth dan arweiniad Y Parchg John Gwilym Jones.

Barn Annibynnol

GWIRFODDOLI

Anodd dychmygu beth fyddai cyflwr cymdeithas heb y llu o wirfoddolwyr sy'n ei gwasanaethu ymhob ffordd. Mae hynny'n arbennig o wir am gyflwr ein capeli. Meddyliwch am y gwirfoddolwyr sydd wedi rhoi o'u gwasanaeth iddynt dros y blynyddoedd ac yn parhau i wneud hynny. Ond ymddengys nad ar chwarae bach mae dod o hyd i wirfoddolwyr bob amser y dyddiau hyn, gan gynnwys yn ein capeli.



Mae pawb mor brysur! Does dim amser i droi. Ychydig o ffeithiau am y byd modern sy'n ymddangos mor ddi-ddadl â'r rhain. Ar draws y byd diwydiannol, mae niferoedd cynyddol wrth ymateb i holiaduron ac ati'n dweud eu bod dros eu pen a'u clustiau mewn gwaith, a hynny ar draul treulio amser gyda theulu a ffrindiau.

Ergonomeg

Gallech dybio fod yr eglurhad am y prysurdeb mawr yn ddigon syml. Rydym yn teimlo gymaint â hynny'n fwy prysur y dyddiau hyn gan fod cymaint yn fwy gennym i'w wneud. Ond arhoswch funud! Dyw'r ddadl ddim yn dal dŵr yn hollol, yn ôl y Ganolfan Ymchwil i Ddefnydd Amser ym Mhrifysgol Rhydychen. Mae'n debyg nad yw'r cyfanswm amser mae pobl yn ei weithio - boed am gyflog neu fel arall –wedi cynyddu yn Ewrop neu Ogledd America dros y degawdau mwyaf diweddar. Ac mae'n ymddangos fod rhieni cyfoes sy'n gofidio nad ydynt yn treulio digon o amser gyda'u plant mewn gwirionedd yn treulio llawer mwy o amser gyda nhw na rhieni cenedlaethau'r gorffennol!

Technoleg Ddigidol

Ychydig sydd i gefnogi'r syniad fod pobl yn gweithio'n fwy caled nag erioed o'r blaen. Pam ydyn ni'n meddwl hynny felly? Mae rhan o'r ateb mewn economeg, medden nhw. Wrth i economïau dyfu ac incwm y rhai ffodus eu byd godi dros amser, daw amser yn fwy gwerthfawr. Mae unrhyw awr yn werth mwy. Felly, mae pwysau arnom i wasgu mwy o waith i'r awr. Ar ben hynny, rydym yn byw mewn byd annherfynol, gydag e-byst bob amser yn y blwch derbyn, mwy o bwyllgorau, mwy i'w ddarllen, a mwy o syniadau i'w dilyn i fyny. Ac mae'r dechnoleg symudol ddigidol yn golygu bod modd i ni fynd drwy'r rhestrau o bethau i'w gwneud naill ai gartref, neu ar wyliau neu hyd yn oed yn y gampfa! Y canlyniad yw teimlad o gael ein llethu gan waith. Mae rhyw bwysau amser ar ein hysgwyddau byth a hefyd. Does ryfedd ein bod yn byw gydag un llygad ar y cloc!

Lles Gwirfoddoli

Mae'r 'prysurdeb' disynnwyr cyfoes yn gallu effeithio ar ein lles a'r cyfan yn cwestiynu'n persbectif ar fywyd. Y cysur yw bod gweithgarwch gwirfoddol yn aml yn gallu ail-lunio neu ailgyfeirio gwerthoedd neu bersbectif pobl, a hyd yn oed amcanion bywyd. I lawer, mae'n gallu symbylu twf newydd, yn ysbrydol ac emosiynol. Ac onid oes cyfleoedd gwych o bob math i bawb mewn capel i brofi'r manteision amlwg a ddaw o wirfoddoli? Ond wedyn, rhaid meddwl pam mae hi'n ymddangos yn fwy anodd denu gwirfoddolwyr weithiau mewn capel nag mewn ambell i faes arall. Mae'r rhesymau'n ddirifedi ac yn ddigon cymhleth, siŵr o fod, ond hefyd yn cynnwys ambell fater sylfaenol pwysig.

Gwastraff

Mae gwirfoddolwyr yn ffieiddio gwastraff â chas perffaith. Tybed a ydym yn gwario llawer gormod ar gapeli diangen a nifer ohonynt mewn perygl o gau beth bynnag? Y canlyniad yw bod hyn yn gallu peri i wirfoddolwyr holi pam y dylent weithio mor galed i helpu achos neu sefydliad sydd mor anghynhyrchiol. Mae gwirfoddolwyr eisiau gwybod beth yw nod y genhadaeth. Pa mor barod ydyn ni felly i rannu'n gweledigaeth ar gyfer y dyfodol â gwirfoddolwyr neu a ydym yn rhy dawedog yn y cyfeiriad hwn? I ba raddau rydyn ni'n ymdrechu i wrando ar yr hyn mae Iesu'n galw arnom i'w wneud a'i gyflawni? Beth hefyd am ein hymateb i'r newidiadau mae'n cymunedau'n eu hwynebu?

Dathlu Llwyddiant

Mae gwirfoddolwyr yn disgwyl dathlu llwyddiant. Tybed a ydyn ni'n treulio gormod o amser yn hytrach yn esbonio'u methiannau? Mae pob math o esgusodion gennym pam nad yw'n gweithgarwch yn llwyddo. Prin iawn y byddwn yn dathlu cyflawni unrhyw nod. Ac yn ddigon naturiol, mae gwirfoddolwyr yn disgwyl cael rhywbeth iddynt eu hunain o'u gwasanaeth, fel cyfeillgarwch, gwerthfawrogiad o'u gwaith, hyfforddiant defnyddiol a'r llawenydd o fod yn rhan o genhadaeth fyw a chyffrous lle mae'r disgwyliadau'n glir.

Tybed a ydym yn rhoi digon o sylw i'r rheidiau hyn yn ein capeli neu a ydym yn rhy barod i dderbyn cyffredinedd a'r hyn sydd gan wirfoddolwyr i'w gynnig heb eu goleuo a'u hysgogi a'u helpu i wella?

RAC

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

AT Y GOLYGYDD

Annwyl Brif Olygydd,

Carwn drwy dudalennau'r 'Tyst' godi cwestiwn, a'i ateb yr un pryd. Dyma'r cwestiwn:- pan fo gweinidog yn gwasanaethu mewn angladdau (a phriodasau) **aelodau mewn eglwysi di-weinidog,** pwy, o ddifri, sydd i gydnabod yn ariannol y gweinidog honno/hwnnw am wasanaethu mewn amgylchiadau fel hyn? Ai'r eglwys lle mae'r 'ymadawedig' a'i theulu/deulu yn aelod/aelodau ohoni neu'r teuluoedd trallodus eu hunain drwy law'r Ymgymerwyr Angladdau?

Byddaf yn gwasanaethu mewn amgylchiadau o'r fath mewn llawer eglwys ddi-weinidog, ac fe ddywedwn i fod 80% o'r eglwysi hynny'n cydnabod am ei wasanaeth. A nhw sy'n iawn. Ond y mae na 20% o eglwysi sydd heb fod yn gwneud hynny ac yn disgwyl i'r teuluoedd, drwy law'r Ymgymerwyr, wneud hynny. A dydi hynny ddim yn iawn. Wedi'r cyfan mae llawer iawn o'r aelodau hyn a'u teuluoedd wedi rhoi oes o gyfraniad (ymhob ystyr) i'w heglwysi, a'r peth lleiaf, dybiwn i, yn enw'r eglwys ac yn enw'r Arglwydd Iesu, all yr eglwysi hynny ei wneud yw anrhydeddu'r aelodau hynny a'u teuluoedd drwy gydnabod am wasanaeth ar amgylchiadau fel hyn.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn neges i eglwysi, ac wrth gwrs, fe'i dywedaf yn y ffordd mwyaf gostyngedig. Rhaid dweud bod Eglwysi Presbyteraidd di-weinidog yn anrhydeddus iawn yn y cyfeiriad hwn ymhob ystyr, ac yn cydnabod am wasanaeth pawb o'u haelodau.

Yn gywir iawn,
Iwan Llewelyn

Cymanfa Ganu

Annibynwyr Pen Llŷn

Capel Hebron Llangwnnadl
Dydd Sul Mai 14eg

Arweinydd:
Mr Tudur Eames Jones, Tremeirchion

Organyddes:
Mrs Gwenda Roberts, Hebron

Cyfarfod y Plant 2.30 ac Oedolion am 6.00.

Eitemau gan Meibion Carnguwch yn ystod oedfa nos.

Dewch yn llu